**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH CYMRU I’R PWYLLGOR MENTER A BUSNES - MASNACH A MEWNFUDDSODDI**

## RHAGARWEINIAD

1. Mae budd economaidd i Gymru yn gyrru agenda ryngwladol Llywodraeth Cymru. Mae masnach a mewnfuddsoddi, twristiaeth a denu myfyrwyr Addysg Uwch rhyngwladol i gyd yn yrwyr ar gyfer ein heconomi. Mae ein gweithgarwch yng Nghymru a thramor i adeiladu ein proffil a’n henw da i gyd wedi’u bwriadu i ddarparu llwyfan i alluogi cwmnïau a sefydliadau Cymru i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt ymddangos.

2. Mae gwneud cwmnïau yng Nghymru yn fwy rhyngwladol a denu buddsoddi o'r tu allan i Gymru yn cynnwys nifer o chwaraewyr o fewn Llywodraeth Cymru yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac Adran y Prif Weinidog. Mae'r tîm, fodd bynnag, yn ehangach na hynny, ac yn cynnwys partneriaid megis Adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr Adran Addysg a Sgiliau, Masnach a Buddsoddi y DU, awdurdodau lleol, siambrau masnach, ymgynghorwyr a chontractwyr, asiantau eiddo a chwmnïau gwasanaethau proffesiynol.

3. Yr ymdrech yma ar y cyd sydd wedi ein galluogi i wella'r effaith a gawn a’n canlyniadau o fasnach a mewnfuddsoddi.

## STRWYTHURAU

4. Mae tîm penodedig masnach a mewnfuddsoddi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu ffocws strategol a chydlyniant; darparu cyngor a chymorth i dimau sector a thimau tramor Llywodraeth Cymru; ymateb i bob ymholiad newydd o linell gymorth uniongyrchol a gwefan Buddsoddi Uniongyrchol Tramor, cydlynu datblygiad cynnig Buddsoddi Uniongyrchol Tramor ar draws y sector; ymgymryd â chynhyrchu arweiniad; cynnal ymchwil i farchnadoedd rhoddwyr tramor a chwmnïau Buddsoddi Uniongyrchol Tramor, rheoli'r holl raglenni cymorth masnach gydag incwm a gwariant cysylltiedig, a darparu cymorth masnach uniongyrchol i gwmnïau.

5. Gan weithio ochr yn ochr â'r tîm Masnach a Buddsoddi, mae timau sector yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn meddu adnodd sy'n ymgysylltu â mewnfuddsoddwyr, newydd a phresennol, a chyda chwmnïau yng Nghymru sy'n dymuno masnachu tramor. Eu rôl yw arwain ar reoli perthynas busnesau cytunedig sy'n eiddo tramor yng Nghymru, adnabod a chyflwyno prosiectau newydd ac ailfuddsoddi, arwain ar deithiau masnach ac arddangosfeydd sector penodol a darparu cefnogaeth masnach i fusnesau.

6. Mae ein swyddfeydd a’n timau tramor yn rhan o swyddfa'r Prif Weinidog. Mae ganddynt ffocws masnach a buddsoddi ac maent yn gyfrifol am adnabod cyfleoedd buddsoddi tramor uniongyrchol newydd ar gyfer Cymru ac adnabod

a chefnogi cyfleoedd masnach. Mae gan y timau tramor gylch gwaith ehangach o ran hyrwyddo buddiannau Cymru yn gyffredinol lle y bo'n briodol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael - cysylltiadau llywodraeth i lywodraeth, twristiaeth, addysg, diwylliant. Mae Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Llundain, sydd hefyd yn rhan o swyddfa'r Prif Weinidog, yn gyfrifol am adnabod a helpu i sicrhau buddsoddiad o Lundain a de ddwyrain Lloegr, boed hynny'n gyfleoedd a gynigir gan gwmnïau Prydeinig neu gan fuddsoddwyr tramor sydd eisoes wedi buddsoddi yn Llundain neu dde ddwyrain Lloegr.

**ADNODDAU**

7. Mae gan y tîm Masnach a Buddsoddi chwech ar hugain aelod o staff gyda chyllideb o £2.142 miliwn ar gyfer 2013/14. Er nad yw'n bosibl gwahanu'r gyllideb o fewn timau sector, sy'n rhan annatod o lwyddiant masnachu a mewnfuddsoddi, mae gan swyddogion o fewn y timau hynny y profiad angenrheidiol i weithio gyda mewnfuddsoddwyr a chyda chwmnïau sy'n dymuno bod yn fwy rhyngwladol. Maent yn gweithio gyda mewnfuddsoddwyr a chyda chwmnïau cynhenid er mwyn darparu ein hamrediad o fesurau i gefnogi datblygiad economaidd.

8. Yn swyddfa Llundain, mae 4 aelod yn canolbwyntio ar fasnach a buddsoddi. Mae swyddfeydd Llywodraeth Cymru dramor a'r swyddfa yn Llundain, er bod ganddynt swyddogaeth gynrychioliadol ehangach, yn canolbwyntio ar fasnach a buddsoddi. Mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth yn Shanghai, Beijing, Chongqing, Efrog Newydd, Chicago, San Francisco, Washington, Tokyo, Dubai, Bangalore, Mumbai, Delhi Newydd, Dulyn a Brwsel gyda chyfanswm staff o 35. Fodd bynnag, mae 10 o'r staff ym Mrwsel yn canolbwyntio ar faterion polisi yr UE.

9. Rydym yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau diplomyddiaeth gyhoeddus er mwyn codi proffil Cymru dramor, gan gynnwys gweithio gyda llywodraethau tramor, Cenhadaeth y DU a sefydliadau diwylliannol allweddol yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi llwyfan ar gyfer gweithgarwch sy'n meddu mwy ffocws o gwmpas amcanion mwy penodol megis masnach a buddsoddi. Mae gan Adran Farchnata yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gan weithio â'r tîm Masnach a Buddsoddi a'r timau sector, hefyd swyddogaeth allweddol o ran sicrhau bod gan Gymru ddigon o weledEdd dramor drwy ddarparu cymorth cyfatebol cyfredol a phriodol. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r rôl y gall ac y mae Masnach a Buddsoddi y DU yn ei chwarae wrth adnabod a helpu i sicrhau buddsoddiad o'r tu allan i Gymru. Yn hyn o beth mae'r berthynas sydd gan swyddogion Llywodraeth Cymru â Masnach a Buddsoddi y DU yn y Deyrnas Unedig a thramor yn allweddol. Gan gydnabod hyn, rydym yn falch bod dau swyddog ar leoliad o Masnach a Buddsoddi y DU wedi gweithio gydag Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y llynedd.

**EFFEITHIOLRWYDD**

10. Roedd canlyniadau buddsoddi mewnol yn 2012/13 yn dangos gwelliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol o ran prosiectau a’r swyddi a sicrhawyd. Cyflawnwyd y gwelliant hwn yn erbyn cefndir o ganolbwyntio ymdrechion gan Weinidogion a swyddogion ac rydym yn hyderus y byddwn yn parhau i weld gwelliant pellach yn 2013/14.

11. Mae’r gystadleuaeth ar gyfer mewnfuddsoddi yn ffyrnig. Mae globaleiddio ac agor marchnadoedd sy'n datblygu a marchnadoedd a fu’n gaeedig yn y gorffennol wedi golygu bod gan mewnfuddsoddwyr llawer mwy o ddewis. Mae ailffocysu Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a ddigwyddodd beth amser yn ôl, oedd yn cydnabod gwerth tyfu mewnfuddsoddwyr presennol a denu mewnfuddsoddwyr newydd ochr yn ochr â thyfu cwmnïau cynhenid, yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i fod ar ein hennill. Sicrhawyd y rhan fwyaf o'n llwyddiant yn 2012/13 drwy ailfuddsoddi gan fuddsoddwyr tramor uniongyrchol presennol yng Nghymru ac, er y byddwn yn parhau i sicrhau llwyddiant yn y maes hwnnw, byddwn hefyd yn chwilio a cheisio buddsoddiad gan gwmnïau newydd i Gymru.

12. Yn ddiweddar, rydym wedi cynyddu ein presenoldeb mewn marchnadoedd tramor gyda chynrychiolaeth ym Mrwsel, Dulyn, Chicago a San Francisco, a bwriad hyn i gyd yw cyflenwi mwy o ganlyniadau ar gyfer Cymru.

13. Mae'n stori debyg o ran cynorthwyo cwmnïau yng Nghymru i fod yn fwy rhyngwladol. Rydym yn defnyddio ystod o ymyriadau er mwyn a) codi lefelau ymwybyddiaeth mewn cwmnïau o fanteision masnach ryngwladol; b) gweithio'n uniongyrchol gyda chwmnïau i nodi cyfleoedd masnachu ar gyfer eu cynnyrch a'u gwasanaethau dramor; c) helpu cwmnïau i ddod o hyd i gyfleoedd a chwsmeriaid posibl mewn marchnadoedd tramor a d) cefnogi cwmnïau i deithio i farchnadoedd tramor er mwyn datblygu busnes newydd a mynychu sioeau masnach.

14. Mae’r ymyriadau yn cynnwys: cymorth Datblygu Masnach Ryngwladol; cefnogi Cyfleoedd Masnach Ryngwladol; cefnogi Ymweliadau Datblygu Busnes Tramor ac arddangosfeydd a theithiau masnach. Mae'r Tîm Masnach a Buddsoddi yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth hefyd yn helpu cwmnïau i gael gafael ar wasanaethau cymorth gan Masnach a Buddsoddi y DU. Yn 2013/14, cafodd rhaglen o tua 40 o deithiau masnach dramor ei rhedeg ac ymysg ein cynlluniau ar gyfer 2014/15 y mae rhaglen teithiau masnach sy’n cynnwys 31 o ddigwyddiadau.

15. Y mesur perfformiad allweddol yw gwerth y busnes allforio newydd a sicrhawyd gan y cwmnïau yr ydym wedi’u cefnogi. Y targed ar gyfer 2013/14 yw £28 miliwn. Hyd at 14 Chwefror 2014, sichrawyd gwerth £31.9 miliwn o archebion. Mae hyn yn cyfateb i adennill £17 am bob £1 o wariant net y

rhaglenni. Mewn cymhariaeth, mae’r Alban wedi cyflawni adenillion o 13:1 ar ei buddsoddiad.

**CASGLIAD**

16. Rydym yn cydnabod, er mwyn aros yn gystadleuol, bod angen i ni fonitro ein perfformiad, ystyried llwyddiant ein hymagwedd bresennol yn gyson, ystyried marchnadoedd newydd, hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd tramor a chynyddu'r stoc o fewnfuddsoddwyr yng Nghymru. Rydym wedi mwynhau llwyddiant sylweddol o ran annog a helpu buddsoddwyr presennol i ail-fuddsoddi yng Nghymru; cwmnïau fel Toyota, Sony, Ford, Airbus ac mae llawer o gwmnïau eraill yn buddsoddi’n aml yng Nghymru. Er hynny, rydym yn cydnabod bod angen i ni gynyddu'r stoc o fewnfuddsoddwyr yng Nghymru, sy’n golygu bod rhaid i ni gynyddu a sicrhau nifer y buddsoddiadau newydd tra'n cynnal a thyfu ein buddsoddwyr presennol. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i annog cwmnïau yng Nghymru i ddod yn fwy rhyngwladol a defnyddio masnach ryngwladol fel cyfrwng ar gyfer twf. Mae ein cefnogaeth yn darparu cwmnïau â'r wybodaeth, y sgiliau a'r modd i gyrchu a datblygu busnes mewn marchnadoedd newydd.

17. Rydym wedi dangos ein bod yn barod i fuddsoddi lle mae cyfle. Rydym wedi cynyddu cynrychiolaeth ym Mrwsel i fanteisio ar y farchnad Ewropeaidd ac rydym wedi sefydlu cynrychiolaeth newydd yn Chicago, San Francisco a Dulyn. Byddwn yn parhau i adolygu ein presenoldeb dramor ac yn ei addasu ble a phryd y barnwn fod hynny’n briodol

18. Ofer yw gwneud cymhariaeth gyda'r hen Awdurdod Datblygu Cymru, Masnach Cymru Rhyngwladol a Busnes Rhyngwladol Cymru. Rydym bellach yn gweithredu mewn amgylchedd economaidd sy'n wahanol iawn ac mae tirwedd ddiwydiannol Cymru yn wahanol hefyd. Yr hyn sy’n allweddol yw bod swyddogion masnach a mewnfuddsoddi penodedig yn arbenigwyr sydd â thoreth o brofiad yn y meysydd hyn, profiad y maent wedi'i ddysgu a'i ddatblygu yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

19. Rydym yn croesawu'r cyfle i drafod yr uchod ac ehangu arno pan fyddwn yn cyfarfod y Pwyllgor.